# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD IAU, 18 AWST 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | T. Davies | J.D. James |
| J.P. Jenkins | A.C. Jones | M.J.A. Lewis | D. Owen |
| B.D.J. Phillips | E. Skinner | G.B. Thomas | M. Thomas |
| D.E. Williams | | | |

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd N. Lewis, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/00832.

**Hefyd yn bresennol:**

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.42 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Donoghue, N. Evans, K. Howell a R. Sparks.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00832** | **Datblygiad tai ar gyfer hyd at 7 uned breswyl ar dir y tu ôl i Garth, Rhydargaeau, Caerfyrddin, SA32 7HY**<br><br>Daeth sylw i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd. Yn bennaf, roedd y pryderon yn ymwneud â'r datblygiad sylweddol yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y straen a roddwyd ar y ddarpariaeth addysg o fewn yr ardal a'r effaith niweidiol ar y Gymraeg. Yn ogystal, nodwyd materion yn ymwneud â'r orsaf bwmpio carthffosiaeth leol ac eiddo cyfagos yn colli preifatrwydd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch diogelwch priffyrdd oherwydd agosrwydd y datblygiad arfaethedig i gyffordd ar ael bryn. O ran hyn, ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn ychwanegu at y traffig sydd eisoes yn uchel ar yr A485, problemau gwelededd a cherbydau yn goryrru.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol a ailadroddodd y pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol fel y nodir yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ac a oedd yn ymwneud â materion diogelwch priffyrdd a achosir gan gerbydau sy'n gyrru'n gyflymach na'r terfyn cyflymder, ynghyd â cholli preifatrwydd, yn enwedig o ganlyniad i'r gofyniad i leihau llystyfiant o fewn eiddo cyfagos.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |
| **PL/02491** | **Newid defnydd o fod yn Fan Agored/Hamdden i fod yn Ddosbarthiad D1 ar gyfer y bwriad i adleoli History Shed Experience Community Interest Community i gynnwys adeiladu Adeilad Arddangos a swyddfeydd, pedwar bwthyn, dwy ysgubor bolion a thoiledau cyhoeddus ar dir ger Maes Parcio oddi ar Stryd y Bont, (Tir yng Nglan yr Afon, ger Trinity Methodist Church), Cydweli, SA17 4UU.**<br><br>Daeth sylwadau i law a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau gwrthwynebu y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd. Yn bennaf, roedd y pryderon yn ymwneud â cholli mannau agored cyhoeddus, problemau sŵn ac amddiffyn, y goblygiadau niweidiol ar fywiogrwydd tref, a'r materion hygyrchedd cysylltiedig o ganlyniad i'r ffaith bod angen y maes parcio ar gyfer trigolion oedrannus ac anabl. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriwyd at y ffaith bod y tir yn destun cyfamod a'r effaith niweidiol ar ecoleg y safle a'r ardal yn rhinwedd y datblygiad a'r aflonyddwch y byddai'r datblygiad yn ei achosi.<br><br>Mynegwyd hefyd nad oedd dogfennaeth y cais yn ddigonol, gyda mesuriadau arwynebedd llawr anghywir wedi'u nodi, a nodwyd bod angen gwybodaeth ychwanegol ar ffurf adroddiad ar yr effaith ar leoliad y castell a'r asedau hanesyddol dynodedig eraill, er mwyn gallu gwneud penderfyniad cytbwys. Hefyd, cyfeiriwyd at yr hyn yr ystyrid yn weithrediad gwael o broses ymgynghori'r Cyngor Tref.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |
| **PL/04147** | **Cais am breswylfa ar wahân ar lain ger 1 Bay View, y Pwll, Llanelli, SA15 4BE** |

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28AIN GORFFENNAF 2022**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 28 Gorffennaf, 2022 gan eu bod yn gywir.**

**CHAIR** ________________________ **DATE** ____________________